Y NADOLIG 2

JEREMEIA 31:7-14; SALM 147:12-20;
EFFESIAID 1:3-14; IOAN 1[1-9] 10-18

● **Gweddi agoriadol**
Cyfarfyddwn heddiw
yn blant y Duw byw,
drwy ei ras rhagorol
a'n Gwaredwr, Iesu Grist.
Codwn ein lleisiau
mewn addoliad a moliant
am y cyfan a wnaeth
ac a wna eto,
yn y lle hwn a'r bywydau hyn.

● **Moliant**
Y Duw a'n gwnaeth,
a'n hadnabu erioed
a gosod ei farc arnom,
molwn dy enw sanctaidd.

Y Duw sy'n ein gwaredu,
a ddaeth yn gnawd drosom
ac a offrymwyd ar ein rhan,
molwn dy enw sanctaidd.

Y Duw sy'n ein nerthu,
sy'n anadlu bywyd ynom
a'n cynnal bob dydd,
molwn dy enw sanctaidd.

Drindod sanctaidd a bendigaid,
yr undod sy'n ein clymu
a'r presenoldeb o'n cwmpas,
molwn dy enw sanctaidd.

● **Cyffes**
Pan fethwn weld
heddwch Crist
mewn gair o gysur
neu fraich dros ein hysgwydd,
maddau i ni.

Pan fethwn weld
cariad Crist
mewn rhannu baich
neu weithred dieithryn,
maddau i ni.

Agor ein llygaid i weld
dy gariad yn y golwg,
ac agor ein calonnau
mewn diolch
a gwasanaeth,
er mwyn i eraill ganfod
drwy ein bywydau
fflach o'r dwyfol.

● **Diolch**
Arweinydd: Diolch fo i Dduw
Pawb: Sy'n deilwng o'n moliant.

Am ras y tu hwnt i ddychymyg,
sy'n cymryd y lleiaf ohonom
ac yn cynnig gollyngdod llawn:

Arweinydd: Diolch fo i Dduw
Pawb: Sy'n deilwng o'n moliant.

Am gariad sy'n dragwyddol
ac sydd, ers gwawr gyntaf amser,
wedi ein cyfrif yn werthfawr:

Arweinydd: Diolch fo i Dduw
Pawb: Sy'n deilwng o'n moliant.

Am lawenydd sy'n fendith i ni
ac yn rhodd i'w rhannu
gyda'r rheini nad ydynt yn ei nabod:

Arweinydd: Diolch fo i Dduw
Pawb: Sy'n deilwng o'n moliant.